# Atebion i Gwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i’w hateb ar 8 Hydref 2009

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi’i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys


2 Cwestiynau i’r Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes

2 Cwestiynau i’r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai

3 Cwestiynau i’r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

5 Cwestiynau i’r Gweinidog dros Faterion Gwledig

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau*

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Pa ganran o ddisgyblion ysgol sy'n cymryd rhan mewn dwy awr o ymarfer corff yr wythnos, fesul blynyddoedd ysgol. (WAQ54938)

***Rhoddwyd ateb ar 14 Hydref 2009***

Mater i ysgolion yw'r dyraniad amser yn y diwrnod ysgol i feysydd pwnc penodol, gan gynnwys Addysg Gorfforol. Fodd bynnag, gyda chefnogaeth gan fenter Addysg Gorfforol a Chwaraeon Ysgol Llywodraeth Cynulliad Cymru rydym wedi annog pob ysgol i weithio tuag at ddarparu dwy awr o amser y cwricwlwm bob wythnos ar gyfer addysg gorfforol.

Caiff amser y cwricwlwm a ddyrennir gan ysgolion i Addysg Gorfforol ei fonitro drwy waith arolygu a gynhelir gan Gyngor Chwaraeon Cymru. Mae'r data diweddaraf, sy'n seiliedig ar waith arolygu a gwblhawyd yn 2004/05, wedi'i nodi yn "Darpariaeth Addysg Gorfforol mewn Ysgolion Cynradd" a "Darpariaeth Addysg Gorfforol mewn Ysgolion Uwchradd" (a gyhoeddwyd gan y Cyngor ym mis Ionawr 2007). Gellir cael gafael ar y ddwy ddogfen ar wefan Cyngor Chwaraeon Cymru drwy'r dolenni a atodir. http://www.cyngor-chwaraeon-cymru.org.uk/12742.file.dld ; http://www.cyngor-chwaraeon-cymru.org.uk/12743.file.dld .

Nid yw'r ffigurau a gyhoeddir yn cynnwys y ganran o ysgolion cynradd ac uwchradd sy'n darparu dwy awr o amser cwricwlwm. Fodd bynnag, mae'r ffigurau'n rhoi'r darlun canlynol ar gyfer darpariaeth yn ôl Grwpiau Blwyddyn mewn ysgolion cynradd ac uwchradd.

**Nifer o funudau yr wythnos ar gyfartaledd ar gyfer Addysg Gorfforol y cwricwlwm yn ôl blwyddyn ysgol.**

| **Blwyddyn** | **Bl 3** | **Bl 4** | **Bl 5** | **Bl 6** | **Bl 7** | **Bl 8** | **Bl 9** | **Bl 10** | **Bl 11** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Munudau** | 92 | 93 | 96 | 96 | 116 | 114 | 109 | 79 | 77 |

Ym mhob achos mae'r ffigurau'n dangos cynnydd yn yr amser a ddarperir ers i gefnogaeth gael ei darparu am y tro cyntaf i ysgolion drwy'r fenter Addysg Gorfforol a Chwaraeon Ysgol yn 2002/03. Caiff cynnydd ei fonitro drwy waith arolygu pellach a gaiff ei gwblhau gan y Cyngor.

## *Gofyn i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai*

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am bolisi Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer newid gwastraff yn ynni drwy drosi nwy yn gyflym. (WAQ54939)

***Rhoddwyd ateb ar 12 Hydref 2009***

Mae cyfnewid nwy yn gyflym yn dechnoleg sy'n datblygu o ran cynhyrchu ynni o gymwysiadau gwastraff, ond prin yw'r safleoedd cyfeirio yn yr UE. Credwn fod effeithlonrwydd troi gwastraff yn ynni y gellir ei ddefnyddio yn ystyriaeth bwysicach na dewis rhwng ystod o dechnolegau a brofwyd, a waeth pa dechnoleg a ddefnyddir, byddem yn dymuno gweld mwy o ynni'n cael ei gynhyrchu o fewn y safleoedd hyn, er enghraifft drwy ddefnyddio cyfuniad o wres a phŵer mewn mannau priodol.

Yng Nghymru, ceir enghreifftiau o safleoedd pyrolysis a nwyeiddio ar raddfa fach, ond nid yw'r un ohonynt yn yn fasnachol ddichonadwy eto. Rhoddwyd cymorth i ddatblygu safle nwyeiddio fel arbrawf drwy gyllid gan SMART Cymru (mewn perthynas â safle yng Ngogledd Cymru), ond nid oes safle pyrolysis cyfatebol wedi'i ariannu eto. Yn y DU gyfan, nid yw'r technolegau hyn wedi'u profi'n dda, a

theimlir bod angen dwy neu dair blynedd arall hyd nes y byddant yn fasnachol ddichonadwy. Gall unrhyw un sy'n ceisio grant gan Lywodraeth y Cynulliad i ddatblygu technoleg yng Nghymru wneud cais i'r Gronfa Buddsoddi Sengl yn:
http://www.business-support-wales.gov.uk/assembly_government_support/business_funding/single_investment_fund.aspx

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei pholisi ynghylch trosglwyddo'r stoc dai. (WAQ54947) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Dirprwy Weinidog dros Dai***

***Rhoddwyd ateb ar 14 Hydref 2009***

**Y Dirprwy Weinidog dros Dai (Jocelyn Davies):** Mae trosglwyddo stoc tai yn un opsiwn y gall awdurdod lleol ei ystyried er mwyn sicrhau Safon Ansawdd Tai Cymru. Mater i awdurdodau lleol unigol i benderfynu arno mewn partneriaeth â'i denantiaid yw trosglwyddo'r stoc tai sy'n berchen i'r cyngor i landlord cymdeithasol cofrestredig .

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut y bydd trosglwyddo'r stoc dai yn helpu Llywodraeth Cynulliad Cymru i gyflawni Safon Ansawdd Tai Cymru. (WAQ54948) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Dirprwy Weinidog dros Dai***

***Rhoddwyd ateb ar 19 Hydref 2009***

**Jocelyn Davies**: Mewn gwirionedd, mae a wnelo'r mater â sut y gall trosglwyddo stoc helpu awdurdodau lleol i gyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru.

Mae gan Lywodraeth Cynulliad Cymru rôl benodol i'w chwarae wrth gefnogi awdurdodau lleol y mae eu tenantiaid wedi pleidleisio dros drosglwyddo drwy roi cyngor a chanllawiau ynghyd â chymorth ariannol penodol o'r gyllideb Tai bresennol. Yn ogystal â hyn, gall awdurdodau lleol sy'n trosglwyddo gael arian gan y Trysorlys er mwyn ad-dalu eu dyled hanesyddol bresennol o ran tai gyda'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus.

Mae trosglwyddo stoc yn galluogi landlordiaid cymdeithasol cofrestredig sy'n derbyn stoc tai'r cyngor i fanteisio ar y lefel ofynnol o adnoddau ariannol i gyflawni atgyweiriadau, gwaith adnewyddu a gwelliannau amgylcheddol. Bydd hyn yn sicrhau bod cartrefi tenantiaid yn cyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru erbyn 2012 (neu'n fuan ar ôl hynny) a'u bod yn cael eu cynnal a'u cadw wedi hynny, gan sicrhau bod rhenti yn parhau'n fforddiadwy. Hoffwn bwysleisio ymhellach bod y buddsoddiad preifat sylweddol sy'n deillio o drosglwyddo stoc hefyd yn gweithredu fel ffactor allweddol sy'n symbylu adfywio amgylcheddol ac economaidd sydd o fudd i gymunedau lleol ac economi genedlaethol Cymru.

Hyderaf y byddwch yn cytuno bod helpu awdurdodau lleol i gyflawni eu nodau tai o ran Safon Ansawdd Tai Cymru hefyd yn fodd i weithio tuag at gyflawni amcanion tai ac amcanion cysylltiedig Llywodraeth y Cynulliad ei hun".

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog roi'r ffigurau ar gyfer nifer y bobl â heintiau a drosglwyddir yn rhywiol yng Nghymru ar gyfer pob blwyddyn er 1999, fesul (a) grŵp oed a (b) math o haint. (WAQ54930)

***Rhoddwyd ateb ar 12 Hydref 2009***

Cyhoeddir adroddiadau ar nifer y bobl sydd â heintiau a drosglwyddir yn rhywiol gan Wasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru, rhan o Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.
http://www.wales.nhs.uk/sites3/page.cfm?orgid=457&pid=27846

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Faint o (a) blant a (b) oedolion a gafodd wrth-iselyddion ar bresgripsiwn ym mhob blwyddyn er 1999. (WAQ54931)

***Rhoddwyd ateb ar 12 Hydref 2009***

Ni ddelir y wybodaeth hon gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, ond mae'n bosibl ei bod ar gael gan Atebion Iechyd Cymru.

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Faint o feddygfeydd sydd wedi cau ym mhob blwyddyn er 1999, fesul ymddiriedolaeth GIG. (WAQ54932)

***Rhoddwyd ateb ar 09 Hydref 2009***

Nid yw'r wybodaeth hon ar gael yn ganolog.

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Faint o (a) wardiau ysbyty a (b) ysbytai sydd wedi cau ym mhob blwyddyn er 1999. (WAQ54933)

***Rhoddwyd ateb ar 14 Hydref 2009***

(a) Ni chedwir gwybodaeth am nifer y wardiau ledled Cymru, ond mae rhyddhad ystadegol yn dangos sut mae nifer y gwelyau wedi newid.

(b) Fe'ch cyfeiriaf at WAQ 49863 a atebwyd rhwng 15 a 22 Mawrth 2007 http://213.253.178.196/bus-home/bus-chamber/bus-chamber-second-assembly/bus-chamber-second-assembly-written/0e39d45f190a68082483a6794f4d9d29.pdf?langoption=3&ttl=Written%20Questions%20answered%20between%2015%20and%2022%20March%202007 - Noder nad yw'r wybodaeth hon yn cynnwys ysbytai a gaeodd ac yna a ailagorodd, ysbytai a gaeodd yn rhannol ac ysbytai a ailadeiladwyd gyda'r un enw. Gellir cael gwybodaeth am ysbytai sydd wedi cau ers 1 Gorffennaf 2006 gan Atebion Iechyd Cymru.

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Fesul Bwrdd Iechyd Lleol, beth oedd nifer y cwynion ynghylch gwasanaethau y tu allan i oriau meddygon teulu ym mhob blwyddyn y mae ffigurau ar gael ar ei gyfer. (WAQ54934)

***Rhoddwyd ateb ar 09 Hydref 2009***

Nid yw'r wybodaeth hon ar gael yn ganolog.

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Faint o arian sydd wedi cael ei wario ym mhob blwyddyn er 1999 ar addysg iechyd rhywiol. (WAQ54935)

***Rhoddwyd ateb ar 14 Hydref 2009***

Mae gwariant iechyd cyhoeddus canolog blynyddol ar gyfer addysg iechyd rhywiol ers 1999 fel a ganlyn:

| 99/00 | 00/01 | 01/02 | 02/03 | 03/04 | 04/05 | 05/06 | 06/07 | 07/08 | 08/09 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 83,895 | 315,579 | 248,234 | 362,539 | 331,154 | 332,051 | 338,055 | 628,041 | 206,301 | 316,000 |

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddarparu manylion nifer y genedigaethau i'r rheini sy'n 19 oed neu iau ym mhob blwyddyn er 1999, wedi'u dadansoddi yn ôl grwpiau oed unigol. (WAQ54936)

***Rhoddwyd ateb ar 12 Hydref 2009***

Rhoddir gwybodaeth am nifer y babanod a anwyd yn fyw yn y tabl canlynol.

**Babanod a anwyd yn fyw yn ôl oedran y fam yng Nghymru 1999 - 2007**

| Babanod a anwyd yn fyw | O dan 16 | 16 | 17-19 | 19 ac iau |
|---|---|---|---|---|
| 1999 | 99 | 311 | 3,060 | 3,470 |
| 2000 | 106 | 955 | 2,245 | 3,306 |

| Babanod a anwyd yn fyw | O dan 16 | 16-17 | 18-19 | 19 ac iau |
|---|---|---|---|---|
| 2001 | 93 | 893 | 2,182 | 3,168 |
| 2002 | 97 | 845 | 2,021 | 2,963 |
| 2003 | 69 | 812 | 2,064 | 2,945 |
| 2004 | 67 | 853 | 2,193 | 3,113 |
| 2005 | 87 | 858 | 2,154 | 3,099 |
| 2006 | 79 | 841 | 2,166 | 3,086 |
| 2007 | 75 | 812 | 2,131 | 3,018 |

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog gadarnhau'r cynnydd canrannol ar gyfer (a) rheolwyr a gweinyddwyr, (b) nyrsys cymwysedig, (c) bydwragedd, a (d) meddygon yn GIG Cymru ar gyfer pob blwyddyn er 1999. (WAQ54937)

***Rhoddwyd ateb ar 14 Hydref 2009***

Gellir cael gafael ar wybodaeth am niferoedd y staff yn GIG Cymru ar gyfer bob blwyddyn ar wefan StatsCymru yn y dolenni canlynol:
Staff y GIG a gyflogir yn uniongyrchol - tablau grŵp staff ar wahân yn y ffolder Staffio yn http://www.statscymru.cymru.gov.uk/ReportFolders/reportFolders.aspx
Ymarferwyr Meddygol Cyffredinol - yn y tabl yn http://www.statscymru.cymru.gov.uk/TableViewer/tableView.aspx?ReportId=1201

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig*

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog roi gwybod pryd y mae'n disgwyl gwneud datganiad llawn ynghylch dyfeisiau hyfforddi sy'n rhoi sioc drydanol. (WAQ54940)

***Ni ddarparwyd cyfieithiad***

The Minister for Rural Affairs issued a Written Statement in the *Introduction of Legislation to Ban Electronic Training Devices* on 22 October 2009.

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A oes gan y Gweinidog unrhyw gynlluniau i dynhau'r rheoliadau ar ffermio cŵn bach, ac os felly, sut y caiff y rhain eu gorfodi'n effeithiol. (WAQ54941)

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**: A oes gan y Gweinidog unrhyw gynlluniau i dynhau rheoliadau ar ffermydd cŵn bach i sicrhau bod y safonau uchaf o ran lles anifeiliaid yn cael eu cyrraedd. (WAQ54942)

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A oes gan y Gweinidog unrhyw gynlluniau i wahardd ffermydd bridio cŵn bach yn llwyr. (WAQ54943)

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**: A oes gan y Gweinidog unrhyw gynlluniau i weithio gyda chyrff megis y Kennel Club i godi ymwybyddiaeth o arferion da a drwg mewn ffermydd bridio cŵn bach. (WAQ54944)

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am safle Llywodraeth Cynulliad Cymru yng nghyswllt cynllun achredu ffermydd bridio cŵn bach y Kennel Club. (WAQ54945)

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A oes gan y Gweinidog unrhyw gynlluniau i wahardd gwerthu cŵn bach mewn siopau anifeiliaid anwes. (WAQ54946)

***Rhoddwyd ateb ar 12 Hydref 2009***

Rhoddir y flaenoriaeth uchaf i les anifeiliaid anwes yng Nghymru a pharheir i weithio gydag elusennau megis y Kennel Club i godi ymwybyddiaeth. Mae rhaglen CAWES (Cynllun Gwella Lles Anifeiliaid Anwes) a ariennir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru wedi bod wrthi'n cefnogi gwaith i wella amodau trwyddedu ar gyfer sefydliadau bridio cŵn ac mae swyddogion wrthi'n ystyried canlyniadau'r prosiectau hyn. Bydd hyn yn cynnwys adolygu'r ddeddfwriaeth bresennol i sicrhau y caiff gofynion Deddf lles Anifeiliaid 2006 eu cynnwys yn llawn mewn amodau trwyddedu.

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei chynlluniau, os oes ganddi rai, i wahardd dyfeisiau hyfforddi sy'n rhoi sioc drydanol. (WAQ54949)

***Ni ddarparwyd cyfieithiad***

The Minister for Rural Affairs issued a Written Statement in the *Introduction of Legislation to Ban Electronic Training Devices* on 22 October 2009.